**Dawn Bowden AS/MS**
**Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1345
Ein cyf/Our ref DB/00349/23
Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

09 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch i chi am roi cyfle i mi wneud sylwadau ar ddeiseb P-06-1345 a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhiw'r Perrai i wneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl, megis Castell Rhiw'r Perrai.

Mae Cynlluniau Rheoli Cadwraeth yn adnodd defnyddiol a ddefnyddir gan berchnogion a rheolwyr asedau treftadaeth i nodi arwyddocâd ased treftadaeth, a sut i warchod a rheoli'r ased. Maent yn helpu i reoli newid yn gynaliadwy i asedau treftadaeth ac fe'u defnyddir yn aml i sicrhau cyllid grant sylweddol i ymgymryd â gwaith cadwraeth.

Mae henebion cofrestredig yng Nghymru yn amrywio o feini hirion bach o'r Oes Efydd i adfeilion cerrig cymhleth a helaeth fel Castell Rhiw'r Perrai. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar berchnogion i gynnal heneb gofrestredig mewn cyflwr da na chynhyrchu Cynlluniau Rheoli Cadwraeth, hyd yn oed os yw'r heneb mewn perygl.

Yn ei arweiniad, mae Cadw yn cynghori bod cynlluniau rheoli cadwraeth yn darparu dull rheoli safle cyfan, hirdymor. Gall eu defnyddio helpu perchnogion i osgoi newidiadau amhriodol ac anfwriadol. Mae arbenigwyr treftadaeth Cadw yn gweithio'n rheolaidd gyda pherchnogion henebion cofrestredig gan roi cyngor ar gynnwys a dull o gynhyrchu cynlluniau rheoli cadwraeth. Fodd bynnag, er bod cyfiawnhad dros eu defnyddio mewn rhai achosion, er enghraifft ar gyfer cynigion mwy, mwy cymhleth a sensitif, ni fyddai'n briodol cymhwyso'r fethodoleg hon yn llwyr i lawer o henebion cofrestredig llai a symlach sydd mewn perygl yng Nghymru. Byddai gwneud cynlluniau o'r fath yn orfodol hefyd yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd. Gwnaed newidiadau helaeth i'r gyfraith i wella'r amddiffyniad ar gyfer henebion cofrestredig yn 2016 gyda Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Er gwaethaf ymgynghori helaeth, nid oedd galwadau am gynlluniau rheoli cadwraeth gorfodol. Mewn gwirionedd, byddai cynnig o'r fath yn anghymesur o ran maint a chost, ac mewn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

llawer o achosion yn anghyraeddadwy. Am y rhesymau hyn, nid wyf o'r farn ei bod yn briodol gwneud cynlluniau o'r fath yn orfodol.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth